# Y Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol

**LG(3)-03-08(p.2) Atodiad 1**

Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn y Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella bresennol, gan gyfeirio at bwerau a dyletswyddau presennol

Yn gryno, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn:

-arolygu'r ffordd y mae awdurdodau gwerth gorau yn cydymffurfio â gofynion gwerth gorau o dan adran 10A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 er mwyn rhoi cymorth i wella gwasanaeth;
-cydgysylltu ei waith arolygu gyda'r archwiliadau o'r cynlluniau gwella a wneir gan yr archwilwyr y mae'n eu penodi a gwaith arolygwyr eraill, fel Estyn (yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad—Cylchlythyr 28/2005—ac yn unol â Deddf 1999);

Mae hefyd yn cefnogi gwelliant drwy gynnal astudiaethau cenedlaethol o dan ei bwerau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (yn bennaf adran 41) i'r graddau y mae'n ategu ei waith archwilio.

Mae Adran 7 o Ddeddf 1999 a chanllawiau cysylltiedig yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio Cynllun Gwella pob awdurdod gwerth gorau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cynnwys profi a yw'r cynlluniau gwella wedi'u paratoi a'u cyhoeddi yn unol â Deddf 1999 a Chylchlythyr 28/2005. Mae hefyd yn cynnwys profi'r wybodaeth Dangosydd Perfformiad a Mesur Perfformiad a gynhyrchir gan awdurdodau. Mae archwilwyr yn cymharu canlyniadau gwaith o'r fath rhwng blynyddoedd. Rhaid iddynt hefyd ystyried p'un a ddylid argymell i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiad o dan adran 10A o Ddeddf 1999.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal arolygiadau o'r ffordd y mae awdurdodau gwerth gorau yn cydymffurfio â'r gwerth gorau wedi ei lywio gan "Asesiadau Risg ar y Cyd" a wneir yn unol â Chylchlythyr 28/2005 gan ei staff, ei archwilwyr penodedig, arolygwyr eraill a'r awdurdodau. Mae hefyd yn cynnal arolygiadau yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, pan fydd un o'i archwilwyr penodedig yn argymell hynny neu os caiff gyfarwyddyd i wneud hynny gan Weinidogion Cymru.

Mae Deddf 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi adroddiad pan fydd wedi cynnal arolygiad o awdurdod, a gall gyhoeddi adroddiadau o'r fath. Mae hefyd yn crynhoi canlyniadau ei waith archwilio ac arolygu ar gyfer pob awdurdod mewn llythyr blynyddol, ac yn darparu'r rhain i'r awdurdodau a Gweinidogion Cymru.

Mae'r Rheolwyr y Cydberthynas a glustnodir ar gyfer pob awdurdod gan yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â Cylchlythyr 28/2005 yn cydgysylltu'r gwaith archwilio ac arolygu. Mae hyn yn cynnwys llunio 'calendr rheoliadol', sy'n cwmpasu gwaith yr archwilydd penodedig, Estyn, AGGCC a'r Archwilydd Cyffredinol. Mae hefyd yn cynnwys arsylwi grwpiau cynghori a sefydlwyd yn yr awdurdodau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn helpu i gydgysylltu gwaith drwy ddarparu Canllawiau Gweithredu blynyddol i archwilwyr penodedig, Estyn ac AGGCC. Mae hefyd yn anfon staff SAC i fynychu Bwrdd Gwella Cymru a'i is-grwpiau Gwybodaeth a Pherfformiad, rhwydweithiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a grwpiau perthnasol eraill.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi cod ymarfer (o dan adran 8A o Ddeddf 1999) yn rhagnodi sut mae archwilwyr ac arolygwyr yn cyflawni eu swyddogaethau. Caiff hyn ei ddefnyddio gan ei staff fel sail ar gyfer gwirio ansawdd gwaith archwilio ac arolygu.

Er mwyn ariannu'r gwaith, mae gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol ymgynghori a rhagnodi graddfa ffioedd ar gyfer awdurdodau ar gyfer archwiliadau'r cynlluniau gwella a'i arolygiadau. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn rhoi cyllid ar gyfer gweithgareddau eraill, fel gwaith cydgysylltu ac astudiaethau gwella penodol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru).